




# Adroddiad Blynyddol 2017-2018



# Cynnwys

|                                                   |           |
|---------------------------------------------------|-----------|
| <b>Rhagair gan y Prif Weithredwr</b>              | <b>3</b>  |
| <b>Cydweithredu ac Arloesedd</b>                  | <b>4</b>  |
| <b>Darparu Gwasanaethau</b>                       | <b>6</b>  |
| <b>Cyfranogi gyda Phlant a Phobl Ifanc</b>        | <b>11</b> |
| <b>Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella</b> | <b>12</b> |
| <b>Edrych ar y Flwyddyn i Ddod</b>                | <b>14</b> |



# Rhagair gan y Prif Weithredwr

Bu'n flwyddyn heriol unwaith eto i Cafcass Cymru gyda chynnydd pellach o 6% yn nifer y plant roeddem yn gweithio gyda nhw sy'n golygu ein bod bellach yn ymwneud â 20% yn fwy o blant nag yn 2015-16. Ein blaenoriaeth o hyd yw darparu gwasanaethau amserol o safon uchel ar gyfer dros 9000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn dim ond oherwydd proffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff a hoffwn ddiolch iddynt am eu hymrwymiad a'u cadernid dan bwysau sylweddol ynghyd â'u cefnogaeth a'u gwaith caled anhygoel.

Disgwylir mwy o gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc y byddwn yn gweithio gyda nhw yn y flwyddyn i ddod ac felly mae'n hanfodol i ni barhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i gynorthwyo canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r Llys Teulu yng Nghymru.

## Yn ystod y flwyddyn gwnaethom:

- weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) i ddatblygu protocolau a chanllawiau ar y cyd i staff er mwyn cefnogi a gwella sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd;
- cyfrannu at waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog a oedd yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant;
- ymaelodi â'r Grŵp Llywio a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer yr 'Adolygiad o'r Argyfwng Gofal: Adolygiad dan arweiniad y sector — Dewisiadau ar gyfer Newid';
- cyfrannu at ddau brosiect ymchwil sy'n ceisio nodi a chael gwell dealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn ymwneud â'r Llys Teulu.

Gwnaethom barhau i dreialu ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella sut rydym yn gweithio a sicrhau bod plant wrth wraidd ein hymyrraeth. Gwnaethom dreialu dull Dadansoddi Effaith ar Blant at ein gwaith cyfraith breifat ac yn ôl y gwerthusiad, roedd wedi cael ei ganmol gan deuluoedd, y farnwriaeth a'n staff.

Bydd y gwersi o'r peilot yn llywio datblygiad ein rhaglen waith ynghylch cyfraith breifat yn y flwyddyn i ddod wrth i ni geisio atgyfnerthu ein dull seiliedig ar blant at ein holl waith.

## Roedd uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- cynnal ein perfformiad a sicrhau nad oes rhaid i unrhyw blentyn yng Nghymru aros am wasanaeth er gwaethaf y cynnydd pellach yn nifer y plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw;
- datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella newydd a fydd yn sail i'n dysgu a'n datblygiad sefydliadol a phroffesiynol parhaus ac yn eu llywio;
- atgyfnerthu ein cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc, a'n gwaith gyda nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan wrth lunio a dylunio'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae gwrandao ar lais plant a phobl ifanc a'i gynrychioli yn y Llys Teulu wrth wraidd ein gwaith ac mae eu cyfraniad nhw yn hynod werthfawr wrth ein helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gymryd rhan wrth lunio ein gwasanaeth, felly rwyf wrth fy modd bod y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc wedi cytuno i arwain a chynnal ein cynhadledd staff ym mis Mai 2018 a fydd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Hoffwn gydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaed gan Bwyllgor Cyngori Cafcass Cymru at lunio ein gwaith ac, yn benodol, hoffwn ddiolch i Jackie Murphy am y ffordd effeithiol a heriol y gwnaeth hi gadeirio'r cyfarfodydd.

Mae'n hollbwysig yn y flwyddyn i ddod ein bod yn cynnal ein ffocws ar ddysgu a gwella parhaus, a'n hymrwymiad i hyn, er mwyn adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau bod plant yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

**Nigel Brown**  
**Prif Weithredwr**

# Cydweithredu ac Arloesedd

Mewn ymateb i lefelau uchel parhaus o alw am ein gwasanaeth yn 2017-18, gwnaethom gyflwyno sawl dull o sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Dyma rai o'r dulliau hyn:

- gweithio gyda Cafcass (Lloegr) i ddatblygu **Canllaw ar gyfer defnyddio amser proffesiynol er lles plant**. Wedi'i lunio'n benodol ar gyfer staff a'r llysoedd, a chan nodi'r cyd-destun prysur iawn y mae'r system yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, prif nod y canllaw hwn yw sicrhau y caiff amser ymarferwyr ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Cyflwynodd hefyd gysyniad yr Adroddiadau Dadansoddi Effaith ar Blant mewn achosion cyfraith breifat;
- adolygu cyfres o **adroddiadau cyfraith breifat** mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr a'r barnwyr teulu dynodedig yng Nghymru i egluro ein rôl mewn achosion cyfraith gyhoeddus a symleiddio templedi adroddiadau. Ar ôl hyn gwnaethom gyhoeddi datganiad disgwyliadau o ran ein rôl mewn achosion Adran 31 i helpu i egluro'r hyn rydym yn ei wneud a'r hyn nad ydym yn ei wneud fel rhan o'r rôl. Hefyd gwnaethom ddiweddarau canllawiau ymarfer ar gyfer ein hymarferwyr pan fyddant yn ymgymryd ag achos cyfraith gyhoeddus;
- penodi nifer o **ymarferwyr y telir ffioedd iddynt** yn ystod y flwyddyn i roi rhagor o gymorth i ni yn ystod cyfnodau prysur i'n gwasanaethau.

Rydym bob amser yn ceisio gwella sut rydym yn gweithio ac yn canolbwyntio ar gryfhau llais y plentyn yn ein holl waith. Gwnaethom dreialu dull **dadansoddi effaith ar blant** yn ein gwaith cyfraith breifat sy'n atgyfnerthu ein

ffocws ar brofiad y plentyn ac yn mabwysiadu dull o weithio gyda rhieni i'w helpu i ddeall a gweld materion o safbwynt eu plentyn. Mae'r dull yn rhoi adroddiadau cryno, clir a chadarn i'r plentyn, y teulu a'r llys, gydag argymhellion sy'n canolbwyntio ar gynrychioli llais y plentyn. Roedd y gwerthusiad o'r cynllun peilot yn gadarnhaol iawn a bydd yr hyn a ddysgwyd ohono yn llywio ein dull o ran datblygiad ehangach ein gwaith Cyfraith Breifat yn 2018-19.

Buom yn gweithio gyda'r Is-adran Plant a Theuluoedd yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adnodd **Gweithio gyda'n Gilydd dros Blant (WT4C)** ar gael yn eang i rieni yng Nghymru sy'n gwahanu. Y nod yw rhoi cyngor a chymorth cynnar hygyrch i'r rhieni hyn fel y gellir datrys problemau cyn iddynt waethgu.

Gwnaethom ehangu'r cynllun peilot ar gyfer **Adroddiadau Ymholiad Diogelu** i'n holl ardaloedd gweithrediadol ar draws Cymru. Mae Swyddogion Ymholiad Diogelu Cafcass Cymru yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth diogelu i blant a theuluoedd drwy gofnodi crynodebau diogelu, cyfweld â defnyddwyr gwasanaethau a chyflwyno adroddiadau i lysoedd mewn achosion penodol. Bydd y cynllun peilot yn dod i ben ym mis Medi 2018 a bydd y gwerthusiad yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r amrywiaeth o ddata rydym yn ei gasglu i'n helpu i ddeall anghenion ac amgylchiadau'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw ac i lywio sut rydym yn datblygu ein gwasanaethau. Mae hyn wedi ein galluogi i gymryd rhan mewn datblygiadau cyffrous ac arloesol fel gweithio gyda'r Nuffield Foundation, Prifysgol Caerhirfryn a Cafcass (Lloegr) ar y llwyfan data a'r swyddogaethau dadansoddol yn yr Arsyllfa Cyfiawnder Teulu dros Gymru a Lloegr.

Buom hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn sicrhau ein bod yn barod i ymateb i'r galw am ein gwasanaethau. Roedd darnau allweddol o waith yn cynnwys:

- **cytundeb gwaith gyda Cafcass (Lloegr)** ar gyfer trosglwyddo achosion a datgelu gwybodaeth. Mae'r cytundeb yn amlinellu'r swyddogaethau statudol sy'n llywodraethu'r ddau sefydliad ac yn egluro'r mater o 'breswyliaeth gyffredin' — mae hyn yn helpu i benderfynu ai Cafcass Cymru neu Cafcass yw'r asiantaeth fwyaf priodol i weithio gydag unrhyw achos dan sylw. Mae'r cytundeb hefyd yn nodi'r broses ar gyfer trosglwyddo achosion a gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad;
- drafftio **protocol Swyddog Adolygu Annibynnol** rhyngom ni a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru). Mae'r protocol, a ddaw i rym yn 2018-19, yn nodi swyddogaethau allweddol Cafcass Cymru a'r Swyddog Adolygu Annibynnol mewn ymgais i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant. Mae'n atgyfnerthu'r neges am bwysigrwydd ymgysylltu ystyrllon rhwng ymarferwyr Cafcass Cymru a'r Swyddog Adolygu Annibynnol ar bob cam achos gofal sy'n mynd gerbron y llys ac yn atgoffa pobl am y neges hon;
- gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i lunio'r protocol 'Canllawiau Arfer Da ar gyfer Asiantaethau Mabwysiadu a Cafcass Cymru: Plant wedi'u Hildio i'w Mabwysiadu', i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol ac ymarferwyr Cafcass Cymru wrth weithio gyda **babanod wedi'u hildio** a'u rhieni;

- arwain wrth ddatblygu canllawiau arfer ar y cyd â Cafcass (Lloegr) o ran **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (TDCRh)** y cytunwyd arnynt ym mis Chwefror 2018. Mae TDCRh yn ymwneud â phlant sydd yng ngofal awdurdod lleol (neu weithiau bwrdd iechyd neu awdurdod addysg lleol) na ganiateir iddynt adael eu lleoliad ac nad ydynt â'r gallu i gydsynio i'w trefniadau. Mae'r Llys Teulu wedi rhoi mwy o sylw i TDCRh ac o ganlyniad rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion o'r fath;
- cyfrannu at yr **adolygiad o'r Argyfwng Gofal** a arweinir gan y sector sy'n ymwneud â rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru a Lloegr yn y system cyfiawnder teuluol, a gychwynnwyd mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol a chyson mewn achosion gofal. Nod yr adolygiad yw cael dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n achosi'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am ofal ac argymell newidiadau i wella amcanion i blant, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel a lleihau nifer yr achosion gofal sy'n mynd gerbron y Llys Teulu. Caiff yr adolygiad ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018.




# Darparu Gwasanaethau

## Nifer y Plant y gwnaethom weithio gyda nhw

Yn ystod 2017-18 buom yn gweithio gyda 9,000 o blant a phobl ifanc, cynnydd o 6% o'i gymharu ag 8,500 y 2016-17. Cafwyd cynnydd o 20% yn nifer y plant sy'n ymwneud

â Cafcass Cymru ers 2015-16. Roedd y rhan fwyaf o'r plant y buom yn gweithio gyda nhw y llynedd (87%) yn 11 oed neu'n iau.

## Plant a fu'n ymwneud â Cafcass Cymru




Mae ein gwaith yn cael ei rannu'n ddau faes yn bennaf: cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Mae'r galw a roddir ar bob maes gwaith yn amrywio'n sylweddol ac mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o lefel y galw am y gwasanaethau hyn.

## Cyfraith Gyhoeddus

Cyfanswm y plant a oedd yn rhan o achosion cyfraith gyhoeddus yn 2017-18 oedd 3,082, cynnydd o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ceisiadau cyfraith gyhoeddus wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 21% ers 2015-16.


## Ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus



Y prif ysgogwr yng ngwaith cyfraith gyhoeddus yw ceisiadau Adran 31 (gofal). Bydd awdurdod lleol yn cyflwyno cais Adran 31 i'r llys pan fo ganddo bryderon sylweddol am ddiogelwch neu les plentyn.


Bydd yn gwneud cais i fynd â'r plentyn i mewn i ofal neu i gael cyfrifoldeb am oruchwyllo gofal y plentyn. Derbyniwyd 1,050 o geisiadau gennym yn 2017-18, cynnydd o 24% yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Ceisiadau Adran 31



Mae Ceisiadau am Lety Diogel yn cyfrif am ganran fach o'n gwaith ond mae atgyfeiriadau wedi bod yn cynyddu'n sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafwyd cynnydd o 100% yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Llety Diogel



## Cyfraith Breifat

Cyfanswm y plant sy'n rhan o achosion Cyfraith Breifat yn 2017-18 oedd 5,937, cynnydd o dros 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae achosion cyfraith breifat yn codi pan fo anghydfod ar ôl i rieni wahanu o ran trefniadau plant, megis lle dylai'r plentyn fyw a/neu pwy mae'r plentyn yn ei weld, na all aelodau o'r teulu ei ddatrys heb ymyrraeth gan y llys. Yn y gwrandawriad cyntaf, rydym yn cwrdd â'r partïon i drafod unrhyw gyfleoedd i ddod i gytundeb a sicrhau bod unrhyw drefniant ar gyfer eu plentyn yn ddiogel ac er lles gorau'r plentyn. Os nad oes modd dod i gytundeb oherwydd yr anghydfod rhwng y rhieni neu faterion diogelu, gall y llys ofyn i ni gynnal asesiad a llunio adroddiad i gynorthwyo'r llys i wneud penderfyniad.

Mewn cyfraith breifat, mae'n ofynnol i ni gynnal ymholiadau diogelu mewn perthynas â mwyafrif llethol y ceisiadau a wneir i'r Llys Teulu. Mae'r ymchwiliadau hyn yn aml yn cynnwys ceisio gwybodaeth gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a chynnal cyfweiliadau dros y ffôn gyda'r partïon (aelodau o'r teulu sy'n ymwneud â'r cais i'r llys).

Diben ein gwaith ymholiad diogelu yw nodi unrhyw risg i'r llys ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am blentyn. Mewn perthynas â'n gwaith ymholiad diogelu, cynyddodd nifer yr adroddiadau a gwblhawyd gennym o 2,902 i 4,130 (42%)<sup>1</sup>.


Yn ogystal â'n gwaith ymholiad diogelu, gallai'r llys ofyn i ni roi dadansoddiad mwy manwl o sefyllfa plentyn.

1. Yn 2017-18 gwnaethom ailddiffinio ein dull o gyfrifo ein hystadegau i sicrhau cysondeb yn ein holl adroddiadau. Yn ogystal â dangos nifer yr achosion rydym wedi ymdrin â nhw, mae hyn hefyd yn gwahanu unrhyw waith ychwanegol rydym wedi'i wneud er mwyn rhoi darlun cyffredinol o'n llwythi gwaith.

Gwneir hyn fel arfer drwy geisiadau am adroddiad Adran 7, neu benodiad Rheol 16.4 (achos cyfraith breifat cymhleth lle mae'r llys yn gwneud y plentyn yn barti i'r achos drwy benodi Gwarcheidwad i'r plentyn).

Gellir gofyn i ni hefyd roi adroddiad Adran 7 atodol hefyd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol yn y fath waith, gyda chynnydd o 22% yn 2016-17 wedi'i ddilyn gan gynnydd pellach o 2% yn 2017-18.

## Gwaith Cyfraith Breifat Pellach



## Llwyth Gwaith Cyfunol

Mae swm y gwaith rydym wedi'i gwblhau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2017-18 gwnaethom gwblhau 7591 o ddarnau o waith ar draws cyfraith gyhoeddus a phreifat.

Mae'r swm ar gyfer 2017-18 yn gynydd o 10% ar 2016-17 a oedd, yn ei dro, yn gynydd o 20% ar 2015-16.

## Llwyth Gwaith Cafcass Cymru



## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rydym yn gweithio yn erbyn pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n mesur amseroldeb dyrannu a dyddiadau ffeilio llys. Mae'r rhain yn ymdrin â phrif feysydd statudol ein gwaith. Mae gan bob DPA darged o 95%. Dyma'r DPA ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018:

- DPA 1 – Amseroldeb dyrannu ceisiadau Adran 31 Dyrannwyd 96.46% o achosion Adran 31 o fewn dau ddiwrnod gwaith gydag amser dyrannu cyfartalog o 0.78 diwrnod gwaith.
- DPA 2 – Amseroldeb dyrannu adroddiadau Adran 7 Dyrannwyd 94.29% o adroddiadau Adran 7 o fewn pum diwrnod gwaith gydag amser dyrannu cyfartalog o 1.65 diwrnod gwaith.
- DPA 3 – Adroddiadau Adran 7 a gwblhawyd erbyn eu dyddiad ffeilio llys Gwnaethom ffeilio 85.22% o adroddiadau Adran 7 erbyn eu dyddiad ffeilio llys, sef cynnydd o 4% ar yr un cyfnod yn 2016-17.
- DPA 4 – Adroddiadau diogelu a gwblhawyd erbyn eu dyddiad ffeilio llys Gwnaethom ffeilio 94.02% o adroddiadau diogelu erbyn eu dyddiad ffeilio llys, sef cynnydd o fwy na 2% o gymharu â ffigur 2016-17.

## Cyllideb

Ein cyllideb ar gyfer 2017-2018 oedd £10,267,000, yr oedd y rhan fwyaf ohono'n gostau staff (92%); gwnaethom gyflogi 145 o ymarferwyr gwaith cymdeithasol ar draws Cymru yn ogystal â 60 o staff cymorth. Roedd yr 8% a oedd yn weddill o'n cyllideb yn talu am ein costau gweithredu a'r gwasanaethau cymorth teulu a orchmynnwyd gan y llys.

# Cyfranogi gyda Phlant a Phobl Ifanc

Mae ein strategaeth gyfranogi 'Dy Lais' yn galluogi'r sefydliad i adeiladu ar y rhyngweithio o ddydd i ddydd rhwng ein staff a phlant a phobl ifanc, gan eu galluogi i ddylanwadu ar y ffordd y maen nhw, a phlant y dyfodol, yn derbyn ein gwasanaethau.

Yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), Safonau Cyfranogiad Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan 'Dy Lais' dri nod strategol yn ogystal â chefnogi nodau ehangach y sefydliad:

- **Gwranddo a Dysgu** — rydym yn gwranddo ar eich barn ac yn dysgu o'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym;
- **Cynnwys a Hysbysu** — rydym yn cael gwybod pa wybodaeth y mae ei eisiau arnoch a sut rydych am ei derbyn;
- **Cydweithio a Rhannu** — rydym yn gweithio gyda sefydliadau fel bod eich llais yn cael ei glywed yn y system cyfiawnder teuluol.

Gwnaethom wrando ar farn pobl ifanc ac, o ganlyniad, ymgysylltu ag amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a chydweithwyr wrth ailddylunio brand ein sefydliad. Wedi'i lansio yn ystod 2017-18, mae dyluniad modern ein logo newydd yn adlewyrchu ein dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'n dyheadau sefydliadol ynghyd â chymeriadau newydd Cafcass Cymru a ddefnyddir i greu amgylchedd anffurfiol yn ein hystafelloedd teulu a gwneud ein cyhoeddiadau'n fwy deniadol i'r darllenwyr.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc wedi chwarae rhan bwysig mewn rhan helaeth o'n llwyddiannau cyfranogi. Rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu cynorthwyo wrth recriwtio dau gynrychiolydd newydd o Gymru i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

O ganlyniad i archwiliadau swyddfa dan arweiniad plant y llynedd, a arweiniwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc, gwnaethom ragor o newidiadau i'n hystafelloedd teulu: ychwanegwyd hysbysfyrddau â gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc yn benodol, cyflwyno 'coeden adborth' fel ffordd ychwanegol i blant roi adborth i ni, a gosod rhai o'n hoffer gwaith uniongyrchol i blant ar y waliau i'w gwneud yn fwy deniadol.

Drwy ddigwyddiadau cyfranogi, adborth ac ymgynghoriadau, dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd am y ffyrdd newydd yr hoffent gael ein gwybodaeth ac felly, yn ystod y flwyddyn, gwnaethom:

- ddiweddarau ac ailfrandio ein pecynnau gwybodaeth ar gyfer plant, gan ddarparu'r wybodaeth mewn modd sy'n briodol i'w hoedran a'r math o achos maent yn rhan ohono;
- ailddylunio ein gwefan i adlewyrchu angen pobl ifanc am ddyluniad modern yn well a darparu gwybodaeth sy'n benodol iddyn nhw sydd wedi'i hysgrifennu mewn ffordd sy'n apelio atynt. Roedd hyn yn cynnwys datblygu adran newydd i bobl ifanc, ffurflen adborth newydd sy'n seiliedig ar deimladau a fideos newydd wedi'u dylunio gan bobl ifanc o'r broses o fod yn rhan o achos Cyfraith Teulu.

Mae cynnwys pobl ifanc yn ein nodau busnes craidd yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n strategaeth gyfranogi ac eleni llwyddwyd i greu a gwreiddio proses o gynnwys pobl ifanc wrth recriwtio ein staff, gan gynnwys ein Dirprwy Brif Weithredwr a'n Pennaeth Gweithrediadau. Yn ogystal gwnaeth pobl ifanc ddylunio ac arwain hyfforddiant cenedlaethol i'n staff ynghylch cyfranogiad a CCUHP, ac mae rhaglen hyfforddiant sefydlu parhaus ar gyfer ein staff newydd wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

# Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella

Gwnaethom barhau i ddatblygu ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella yn ystod 2017-18. Mae'r fframwaith yn dod â phob elfen Sicrhau Ansawdd ynghyd gan roi'r cyswllt angenrheidiol â dysgu mewnol a gwella sefydliadol â chanlyniad y plentyn wrth wraidd popeth a wnawn. Mae hefyd yn rhoi strwythur ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth allweddol â chyrff allanol er mwyn cyfrannu at unrhyw newid a nodir a gwelliannau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy ddysgu o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a nodi meysydd i'w gwella drwy wrando ar y cyhoedd i wella ansawdd ein gwasanaethau, rydym yn gwneud newidiadau i helpu i gryfhau ein gwasanaeth. Mae'r fframwaith wrth wraidd ein hymrwymiad i fod yn sefydliad myfyrgar sy'n dysgu ac yn un sy'n gweithio'n agos gydag eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Hyd yma rydym wedi adolygu ein dulliau o gasglu adborth defnyddwyr gwasanaeth gyda'r bwriad o gyflwyno dulliau gweledol, deniadol, syml, modern a hygyrch o geisio adborth. Roedd ein rhaglen waith yn cynnwys:

- dylunio hyb adborth a gaiff ei lansio gyda'n gwefan newydd, lle gall defnyddwyr gwasanaethau fanteisio ar amrywiaeth o opsiynau adborth yn yr un lle;
- gwahodd defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn arolwg cyflym dros y ffôn ar ddechrau achosion cyfraith breifat fel rhan o gynllun peilot gan fwriadu gwreiddio hwnnw ar draws y sefydliad yn 2018;
- cyflwyno coeden adborth, ar y cyd â'r tîm cyfranogiad, ym mhob un o'n hystafelloedd cyfarfod teulu i annog adborth gan y plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio'n agos gyda'n tîm cyfranogiad i atgyfnerthu a

datblygu ein dulliau adborth ymhellach ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi:

- adolygu a gwella ein hadroddiadau data a gosod dangosyddion perfformiad newydd. Rydym yn rhannu ein data'n rheolaidd â rhanddeiliaid i ddadansoddi a dysgu o'r wybodaeth er mwyn llywio blaenoriaethau'r dyfodol, cynlluniau gwaith a meysydd i'w gwella, yn fewnol ac yn allanol;
- adolygu a gwella ein proses gwynion, gan gyflwyno system casglu data electronig er mwyn dadansoddi tueddiadau, nodi'r hyn sy'n cael ei ddysgu a llywio meysydd i'w datblygu;
- llunio adroddiad thematig am lety diogel i blant yng Nghymru sydd wedi ysgogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gomisiynu rhagor o ddadansoddiad ac ymchwil i'r maes hwn;
- treialu model Adolygiad Arfer newydd ar sail cryfderau sy'n ein helpu i ddysgu mwy am effaith ein gwaith ac, yn bwysicach, sy'n nodi'r hyn y gallwn ei wneud i wella ein harfer fel y gallwn ddarparu gwasanaeth rhagorol i blant a phobl ifanc;
- adolygu ein gweithdrefn oruchwylio i gefnogi datblygiad parhaus ein hymarferwyr. Caiff hyn ei gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan o fis Ebrill 2018.

## Buddsoddi mewn Dysgu a Datblygu

Mae sicrhau bod ein staff yn gallu manteisio ar hyfforddiant addysgol, perthnasol o safon uchel yn hanfodol i ddarpariaeth barhaus ein gwasanaethau a datblygiad ein staff a'r sefydliad ehangach. Rydym yn awyddus i sicrhau rhaglen hyfforddiant dreigl sy'n cefnogi pob aelod o'n staff. Mae ein rhaglen dysgu a datblygu yn newid drwy'r amser er mwyn ymateb i faterion lleol a chenedlaethol a sicrhau bod ein staff yn cael cyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Yn ogystal â'r dewis eang o ddigwyddiadau hyfforddiant a chyfleoedd e-ddysgu sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi cynnig hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar feysydd megis ysgrifennu dadansoddol, cymodi, ymlyniad a gwahanu brodyr a chwiorydd, a rhestr wirio asesu lles plant a phobl ifanc Cafcass Cymru ac rydym wedi darparu hyfforddiant mewn ymateb i gyfraith achos newydd sy'n arwain ein dull o weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed, gan gynnwys achosion lle nodir cam-drin domestig. Buom hefyd yn cydweithredu â'r farnwriaeth ac awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant ar y cyd.

Rydym wedi cynllunio amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys dechrau rhaglen sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu plant; gweithdy ar 'Eithafiaeth, radicaleiddio a goblygiadau arfer'; a chyfleoedd hyfforddiant penodol i gefnogi'r broses o adolygu a chyflwyno'r dull newydd o ran gwaith cyfraith breifat.

## Canmoliaeth a Chwynion

Yn ystod y flwyddyn, cawsom 51 o sylwadau ganmoliaethus oddi wrth rieni, aelodau eraill o'r teulu, cyfreithwyr a'r farnwriaeth. Rydym yn cofnodi pob sylw canmoliaethus er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaethau. Roedd llawer o'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan rieni yn canmol ein hymarferwyr am y ffordd gadarnhaol roeddent wedi cyflawni eu gwaith, gan gynnwys y cymorth a roddwyd i'w plant mewn cyfnod a allai fod yn anodd iawn. Cafwyd sylwadau canmoliaethus gan farnwyr a chyfreithwyr hefyd am safon adroddiadau ein staff a'u proffesiynoldeb yn ystod achosion llys.

Rydym yn gwerthfawrogi pob adborth: mae cael gwybod yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a nodi meysydd i'w gwella yn ein helpu i gryfhau ein gwasanaethau. Rydym yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac yn croesawu'r cyfleoedd dysgu sy'n codi o ymchwiliadau cwynion.

Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, gweithiwyd gyda 9,000 o blant a phobl ifanc. Yn yr amser hwn, ni chafwyd unrhyw gwynion gan blant neu bobl ifanc.

Derbyniwyd 140 o gwynion gan oedolion ac ymchwiliwyd yn ffurfiol i 28 ohonynt. Cafodd y gweddill eu datrys heb orfod cynnal ymchwiliad ffurfiol. O'r 28 ymchwiliad ffurfiol, roedd y mwyafrif yn ymwneud â'n gwaith cyfraith breifat, a chafodd deg cwyn eu cadarnhau'n llawn neu cafodd elfennau o'r cwynion eu cadarnhau.

# Edrych ar y Flwyddyn i Ddod

Yn 2018-19, byddwn yn parhau i ymateb i'r galw cynyddol am ein gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu'n brydlon ac yn gyson ar gyfer plant, teuluoedd a llysoedd ar draws Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy archwilio technolegau a datblygiadau gwasanaeth arloesol er mwyn gwella ein dull o weithio ymhellach a galluogi ein gweithlu i weithio'n hyblyg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Byddwn yn hybu datblygiadau mewn cyfraith breifat drwy ein rhaglen 'Ymagwedd Arfer Gorau mewn Cyfraith Breifat: Canolbwyntio ar y Plentyn'. Byddwn yn parhau i wreiddio ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella a fydd yn cynnwys cyflwyno proses Adolygiad

Arfer ar sail cryfderau a gweithdrefn gwynion ddiwygiedig ar draws y sefydliad. Bydd cyfrannu at gynllunio gwasanaethau a datblygiad ehangach gyda'n rhanddeiliaid yn galluogi nod ar y cyd o wella canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar sawl prosiect 'Dy Lais' ar gyfer y flwyddyn nesaf ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddatblygu ac atgyfnerthu cyfranogiad y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc yn y gwaith parhaus o ddatblygu ein gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y sector i gyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

